Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner

**10 Medi 2024**

**Ymateb Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys i**

**Gyflwr Plismona 2023**

Yr wyf wedi darllen a diddordeb yr adroddiad Cyflwr Plismona: Asesiad Blynyddol o Blismona yng Nghymru a Lloegr ar gyfer 2023. Yr wyf wedi amlinellu fy ystyriaethau isod o dan y prif themâu y tynnir sylw atynt yn yr adroddiad.

***Adfer ffydd a hyder y cyhoedd***

<u>Adnabod a mynd i’r afael â chanfyddiadau’r cyhoedd</u>

Rwy’n cytuno gydag arsylwadau’r adroddiad o gwmpas cyfathrebu gyda’r cyhoedd yn fwy effeithiol. Mae Cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu 4 blynedd (2024-2028) newydd Heddlu Dyfed-Powys, sy’n nodi amcanion i wella hyder a ffydd, yn galonogol.

Yn ogystal, mae’r timoedd Cyfathrebu a Phlismona Bro’n cydweithio i gyflwyno llwyfan ymgysylltu digidol a fydd yn gwella ymgysylltu digidol ddwy ffordd gyda chymunedau.

Mae’n galonogol bod Heddlu Dyfed-Powys yn cydnabod y gall Plismona Bro effeithiol adfer hyder y cyhoedd. Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi lansio Strategaeth Atal newydd, Strategaeth Plismona Bro, Strategaeth Ymgysylltu Cymunedol Plismona Bro, Polisi Dyletswyddau Eraill Plismona Bro, Cynllun Cyflenwi a Fframwaith Perfformiad. Er mwyn monitro cynnydd yr ymyriadau allweddol hyn, mae Grŵp Cyflenwi Atal wedi’i greu, gyda chynrychiolwyr o’m swyddfa i'n bresennol.

Yr wyf wedi fy sicrhau bod Heddlu Dyfed-Powys wedi cyflawni gwaith i wella fetio a mynd i’r afael â chamymddwyn. Yn ogystal, maen nhw wedi cynnal ymarfer golchi data hanesyddol o 11,865 o gofnodion swyddogion neu staff. Ni ddychwelodd hyn unrhyw bryderon difrifol.

Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi’i gydnabod fel enghraifft o arfer da gan AHGTAEF ar gyfer eu Panel Adolygiad Anghymesuredd Fetio a’u proses.

<u>Mae’r rhan fwyaf o fathau o droseddau wedi bod yn gostwng ers amser hir</u>

Mae’r Arolwg Trosedd ar gyfer Cymru a Lloegr yn dangos bod y rhan fwyaf o fathau o droseddau wedi bod yn gostwng ers amser hir. Fodd bynnag, mae siopladrata (troseddau masnach) wedi cynyddu, ac adlewyrchir y duedd hon yn ardal Dyfed-Powys. Mae Heddlu Dyfed-Powys a’m swyddfa i wedi gwrando ar bryderon busnesau am siopladrata. Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi creu Strategaeth

Troseddau Masnach sy'n cysylltu â gwaith Timoedd Plismona Bro. Mae fy swyddfa hefyd wedi llunio cynllun gweithredu troseddau masnach i ategu Strategaeth yr Heddlu a helpu i fagu hyder ymysg y gymuned fasnach ar draws ardal Dyfed-Powys.

Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi blaenoriaethu Trais yn Erbyn Menywod a Merched yn barhaus. Ers lansio Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Cyflenwi 2024-2027 Trais yn Erbyn Menywod a Merched ar ei newydd wedd, mae'r Dirprwy Brif Gwnstabl wedi derbyn cyfrifoldeb fel arweinydd yr Heddlu ar gyfer Trais yn Erbyn Menywod a Merched, gan arddangos arweinyddiaeth strategol o faes pryder proffil uwch ar gyfer y cyhoedd a phlismona yn genedlaethol.

Yr wyf wedi fy sicrhau bod sawl gweithgaredd Trais yn Erbyn Menywod a Merched newydd wedi'u cyflawni gan Heddlu Dyfed-Powys, gan gynnwys y canlynol:

- Lansio'r Polisi Aflonyddu Rhywiol newydd.
- Rhaglenni hyfforddi sy'n cynnwys aflonyddu rhywiol yn y gweithle, amddiffynnwr, rhoi Cynllun Gweithredu Hil yr Heddlu yn ei gyd-destun, a'r Cod Moeseg (7 modiwl e-ddysgu).
- Mae'r tîm swyddogion sy'n fyfyrwyr wedi gweithio gyda Phrifysgol De Cymru ar ymchwil ac arolygon mewn perthynas â chasineb at wragedd.
- Mae'r Adran Safonau Proffesiynol wedi adolygu eu cyflwyniadau i swyddogion sy'n fyfyrwyr ac maen nhw nawr yn cyflwyno ddwywaith mewn mannau strategol yng nghwricwlwm y swyddogion sy'n fyfyrwyr.
- Mae Cadeiryddion Rhwydweithiau Cymorth Staff nawr yn cymryd rhan yn y Grŵp Cofleidio Amrywiaeth, gan roi adborth yn uniongyrchol i Brif Swyddog fel bod modd ymdrin yn briodol ag unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg.
- Arolygon Staff a arweinir yn annibynnol a grwpiau ffocws drwy Fuddsoddwyr Mewn Pobl.
- Mae digwyddiadau ymgysylltu a disgwyliadau a gynhaliwyd ledled yr Heddlu gan y Prif Gwnstabl Cynorthwyol nawr yn cael eu rhaeadru gan bob Pennaeth Adran a'u hatgyfnerthu yn Sioeau Teithiol y Prif Swyddogion.

## *Darparu gwasanaeth i ddioddefwyr a'r rhai sydd fwyaf agored i niwed*

<u>Bodlonrwydd Dioddefwyr â'r heddlu a'r system cyfiawnder troseddol</u>

Yr oeddwn yn poeni o ddarllen yn yr adroddiad mai ychydig iawn o ddioddefwyr oedd yn ystyried bod y system cyfiawnder troseddol yn effeithiol a theg. Mae'r dangosfwrdd arolygon dioddefwyr nawr yn fyw yn Heddlu Dyfed-Powys ac yn bwydo canlyniadau arolwg a gynhelir yn allanol gyda dioddefwyr trosedd yn ôl. Dychwelodd y rhai a gafodd eu harolygu rhwng 01/03/2023 a 31/05/2024 lefelau cadarnhaol o fodlonrwydd â'r gwasanaeth a ddarparwyd gan Heddlu Dyfed-Powys, heblaw am ba mor dda y cawsant y wybodaeth ddiweddaraf. Rwyf wedi cael gwybod na ddeellir y cydberthynas rhwng y data hwn a chyfraddau ymadael dioddefwyr yn llawn. O'r herwydd, mae gwerthusiad i ddeall hyn wedi'i gomisiynu o fewn yr adran Cyfiawnder Troseddol.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner

Yr wyf hefyd wedi fy sicrhau bod yr holl ymatebion anfodlon yn cael eu hadolygu mewn cyfarfodydd perfformiad misol Ardaloedd Plismona Lleol a'r Dirprwy Brif Gwnstabl ac estynnir adfer gwasanaeth i'r dioddefwyr anfodlon.

Cael y pethau sylfaenol yn iawn

Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi fy sicrhau y bydd perfformiad mewn perthynas ag ateb galwadau 999 ac 101 a'r nifer sy'n rhoi'r gorau i'r galwadau hyn yn parhau'n faes ffocws ar gyfer 2024 – 2025.

Yn ystod chwe mis cyntaf 2024, adroddodd Heddlu Dyfed-Powys bod 28% wedi rhoi'r gorau i alwadau 101. Rhagamcanwyd y byddai'r ffigwr hwn yn cynyddu i tua 40-50% yn ystod yr haf pan mae galw ar ei uchaf, gan arwain at ddatgan digwyddiad argyfyngus a Grŵp Aur yn cael ei sefydlu.

Mae gwaith eisoes wedi'i gyflawni er mwyn gwella hyn, gyda deuddeg aelod staff ychwanegol yn cefnogi Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu ers mis Mehefin. Cofnodwyd bod 16.6% wedi rhoi'r gorau i alwadau 101 ym mis Mehefin, ac 16.2% ym mis Gorffennaf. Bydd gwaith pellach yn cael ei gyflawni yn y maes hwn er mwyn sicrhau bod gwelliannau dal yn cael eu gwneud.

Nid yw'r system cyfiawnder troseddol yn rhoi mynediad i gyfiawnder

Mae'n galonogol imi fod canlyniadau gwaith maes Asesiad Gwasanaeth Dioddefwyr 2023 PEEL Heddlu Dyfed-Powys yn ardderchog; fodd bynnag, cydnabyddir bod gwelliannau y gellir eu gwneud bob amser i ymchwiliadau.

O fewn Heddlu Dyfed-Powys, rwyf wedi fy sicrhau bod Unedau Datblygu Achosion wedi bod yn gweithio i glirio'r ôl-groniad o ffeiliau achos i'w hanfon at Wasanaeth Erlyn y Goron.

Cyflwynwyd rôl Uwch-arolygydd ar gyfer Atal yn Heddlu Dyfed-Powys, gyda blaenoriaeth gychwynnol o osod strategaeth, fframwaith perfformiad a fframwaith sicrhau ansawdd. Mae'r Bwrdd Bregusrwydd Strategol nawr yn cynnwys atal ac mae'n canolbwyntio ar sicrhau bod y ddau faes pwysig hyn yn cyd-fynd yn agosach.

Mae gan Heddlu Dyfed-Powys nifer sylweddol o ffrydiau gwaith ar y gweill er mwyn sicrhau eu bod nhw ac asiantaethau eraill yn cydweithio i gyflwyno mynediad i gyfiawnder ac atal troseddu. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Strategaeth Gyffuriau'r Heddlu – cyfeirio pob trosedd meddu ar gyffuriau at asiantaethau cymorth ar gyfer camau gweithredu dargyfeiriol.
- Gofal Iawn, Person Iawn – bydd dull gweithredu graddol yn unol â heddluoedd eraill ledled y wlad yn cychwyn fis Hydref 2024.
- Rhaglen waith Dyletswydd Trais Difrifol gyda Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol.

- Ymgyrch Soteria – dilyn y model gweithredu cenedlaethol ar gyfer ymchwilio i drais a throseddau rhywiol difrifol.
- Gweithgorau Ymadael Cam-drin Domestig.

Fe'm calonogir bod perthynas gydweithio iach rhwng Heddlu Dyfed-Powys a Gwasanaeth Erlyn y Goron. Cynhelir y Cyfarfod Gwella Gweithrediadol ar y Cyd Strategol bob chwarter ac mae'n cael ei gadeirio ar y cyd rhwng Prif Gwnstabl Cynorthwyol Heddlu Dyfed-Powys a Dirprwy Brif Erlynydd y Goron, Huw Rogers. Mae'n rhoi fforwm ar gyfer cydweithio ac mae'n cael ei fynychu gan y pedwar heddlu yng Nghymru a Gwasanaeth Erlyn y Goron.

Mae'n galondid bod Heddlu Dyfed-Powys yn parhau i gyflawni'n well na'r cyfartaledd cenedlaethol mewn perthynas â safon y ffeiliau a gyflwynir i Wasanaeth Erlyn y Goron. Mae hyn yn cynyddu nifer y pledion euog yn ystod y gwrandawiad cyntaf, yn lleihau cyfraddau ymadael dioddefwyr ar ôl cyhuddo, ac yn sicrhau cyfradd euogfarnu uchel yn y llys. Mae Heddlu Dyfed-Powys yn arwain y ffordd yng Nghymru yn y maes hwn, ac maen nhw'n bumed yn genedlaethol.

Mae'n galonogol iawn adrodd nad yw'r rhwystrau diwylliannol a chyfathrebu y tynnwyd sylw atynt yn yr adroddiad yn bodoli yn Heddlu Dyfed-Powys i bob golwg.

Mae amseroldeb adolygiadau ffeiliau Cam-drin Domestig o fewn yr Uned Brosesu Ganolog, heb unrhyw ôl-groniadau'n ymwneud â Cham-drin Domestig neu Drais a Throseddau Rhyw Difrifol, yn galondid imi. Mae hyn yn arwain at gyflymder ar gyfer y troseddau hynny.

Ers sawl blwyddyn, mae Heddlu Dyfed-Powys wedi cydnabod bod twyll a seiberdroseddu'n cyflwyno bygythiad diogelwch ac economaidd sylweddol i'w gymunedau. Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi cydnabod canfyddiadau adolygiad diweddar a gynhaliwyd gan Heddlu Dinas Llundain, a nododd fod y gyfradd canlyniad barnwrol ar gyfer twyll yn is na'r canlyniad cenedlaethol. Yr wyf wedi fy sicrhau bod Heddlu Dyfed-Powys yn adolygu'r ffordd y mae'n erlid troseddwyr a sut y gellir gwella perfformiad. Awgrymodd yr adolygiad hefyd y dylai twyll fod yn rhan anhepgor o fwrdd perfformiad yr heddlu. Mae ystyriaeth yn cael ei roi i'r ffordd fwyaf cynhyrchiol y gellir cyflawni hyn o fewn Heddlu Dyfed-Powys.

### *Paratoi'r gweithlu i lwyddo*

<u>Effaith Rhaglen Ymgodi'r Heddlu</u>

Mae sylwadau'r adroddiad ar effaith Ymgyrch Uplift yn gynrychiolaeth gywir o'r darlun yn Heddlu Dyfed-Powys. O safbwynt cynllunio gweithlu, yr wyf wedi cael gwybod y byddai dileu targedau cynnal ymgodi a chosbau ariannol ategol yn lliniaru'r perygl y gallai nifer gael blaenoriaeth dros ansawdd. Byddai hyn yn galluogi Heddlu Dyfed-Powys i recriwtio yn seiliedig ar ofynion cynllunio ar gyfer olyniaeth ar gyfer daearyddiaethau a sgiliau penodol, yn ogystal â lleihau nifer y swyddogion ar brawf sy'n methu a'r amser rheoli tiwtor cysylltiedig a dreulir ar

reoli perfformiad. Gan hynny, rwy'n cytuno gyda'r argymhelliad a wnaed i'r Llywodraeth o fewn yr adroddiad.

<u>Mae gweithlu effeithiol angen arweinwyr cryf</u>

Yr wyf wedi cael gwybod bod llai na 5 mlynedd o wasanaeth gan 29% o swyddogion yn Heddlu Dyfed-Powys. Mae hyn yn cyflwyno peryglon, o ran cadw ac o ran argaeledd swyddogion profiadol i ddarparu arweiniad anffurfiol a chefnogaeth i'r rhai ifainc mewn swydd yn ystod sifft nodweddiadol. Er mwyn lliniaru hyn, mae Heddlu Dyfed-Powys wedi buddsoddi mewn adnodd i gynnal cyfweliadau 'Dweud ac Aros', gan arwain at gadw 62% o'r swyddogion heddlu sydd wedi cymryd rhan. Mae Heddlu Dyfed-Powys hefyd wedi cyflwyno proses Cymorth Dysgu a Gynorthwyir gan Gymheiriaid, lle mae swyddogion heddlu gwirfoddol wedi'u hyfforddi'n cefnogi eu cydweithwyr drwy'r proses swyddogion sy'n fyfyrwyr.

Yr wyf wedi fy sicrhau bod dulliau recriwtio a dethol lleol dal yn cael eu haddasu i sicrhau bod ymgeiswyr yn deall gwirioneddau rôl swyddog heddlu.

Nodaf nad yw'r adroddiad yn sôn am yr heriau denu talent mewn perthynas â chyflog ac amodau gweithio o'u cymharu â sefydliadau sector cyhoeddus eraill. Mae Heddlu Dyfed-Powys o hyd yn cystadlu â byrddau iechyd lleol i gadw talent oherwydd y cyflogau uwch maen nhw'n medru cynnig. Mewn marchnad gyflogaeth lle mae gweithio hyblyg a hybrid nawr yn gyffredin, mae her bellach i'r gallu i ddenu swyddogion sy'n fyfyrwyr.

***Ariannu'r heddlu***

<u>Cyllid presennol ac yn y dyfodol</u>

Croesawaf yr argymhelliad mewn perthynas â'r angen ar gyfer sicrwydd ariannol yn y dyfodol drwy gyhoeddiadau setliad cyllido tymor hirach, ymgynghori ac ariannu cyfalaf sylweddol a phenderfyniadau ariannol o gwmpas effaith bosibl newidiadau i'r fformiwla ariannu ar heddluoedd unigol yn y tymor canolig.

Mae Heddlu Dyfed-Powys yn credu y dylai disodli'r targedau ymgodi gyda mesur gwell o gapasiti heddlu gweithrediadol fod yn flaenoriaeth. Dylai unrhyw fesur o'r fath ystyried y rôl hollbwysig a chwaraeir gan staff yr heddlu o ran cyflenwi plismona rheng flaen. Gallai hyn arwain at ddewisiadau cynllunio gweithlu mwy economaidd ac effeithiol yn dychwelyd i'r bwrdd yn lleol.

Mae Heddlu Dyfed-Powys wrthi'n cynnal Adolygiad o'r Heddlu i gyflenwi gwelliannau effeithlonrwydd a chynhyrchiant drwy weithredu offer sgrinio troseddau, Gofal Iawn, Person Iawn, yr Uned Rithwir Cam-drin Domestig a newidiadau eraill wedi'u hanelu at hybu'r rheng flaen. Yn ogystal â phwysau ariannol eraill, mae capasiti plismona bro wedi'i herio oherwydd gostyngiadau o

ran cyllid Llywodraeth Cymru mewn perthynas â niferoedd Swyddogion Cefnogi Cymunedol yr Heddlu (SCCH) (i lawr o 89 i 44 cyfwerth ag amser llawn erbyn Ebrill 2025).

Mae’n hollbwysig bod y cynnydd diweddaraf mewn cyflog o 4.75% yn cael ei ariannu’n llawn mewn setliadau, yn ogystal ag effaith ariannol gofynion newydd gan y Llywodraeth, megis rhai sy’n ymwneud â diswyddo ac ymddygiad, lleihau carbon ac ati. Bydd y rhain yn fwrn sylweddol ar heddluoedd llai a heddluoedd gwledig. Mae angen eglurder o ran sut y bydd yr ymrwymiad maniffesto i gynyddu swyddogion, cwnstabliaid gwirfoddol a staff heddlu o 13,000 cyfwerth ag amser llawn ychwanegol yn cael ei ariannu a’i weithredu yn ogystal ag ar ddyfodol targedau ymgodi swyddogion eu hunain.

Rwy’n ddiolchgar bod yr adroddiad blynyddol hwn wedi’i gyhoeddi. Bydd fy nhîm a minnau’n parhau i weithio’n agos â chynrychiolwyr Heddlu Dyfed-Powys er mwyn sicrhau y gweithredir ar yr holl ddysgu perthnasol o fewnwelediadau a gynhyrchir drwy weithgarwch AHGTAEF er mwyn gwella’r gwasanaeth heddlu ar gyfer preswylwyr ardal Dyfed-Powys.